PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Sut y gallwn drawsnewid economeg a busnes er mwyn mynd i'r afael â'r aml-argyfwng byd-eang?

Seminar a thrafodaeth gyhoeddus
21 Tachwedd, 14.00-16.00h.

Tŷ Trafod Ymchwil
Adeilad Delweddu, Campws Penglais,
Aberystwyth, SY23 3BF

Hefyd ar MS Teams:
Dolen gyswllt â'r cyfarfod
Meeting ID: 310 425 878 834 0
Passcode: HL6Rr7bY

Mae hi'n oes o argyfyngau sydd wedi cydblethu a chydgysylltu â'i gilydd, megis gwrthdaro ledled y byd, argyfyngau'r hinsawdd a byd natur, ansicrwydd cyflenwadau bwyd a dŵr, ac anghydraddoldeb eithafol. Mae economegwyr ac arbenigwyr amgylcheddol yn cytuno bod un o'r pethau pwysig sylfaenol sydd wedi achosi'r 'aml-argyfwng' byd-eang hwn yw ein modelau economaidd a busnes sydd wedi canolbwyntio ar dwf digyfyngiad ar draul lles ehangach pobl a'r blaned.

Bydd y seminar a'r drafodaeth gyhoeddus hon yn rhoi llwyfan i sut y gallwn ail-lunio ein systemau economaidd a'n modelau busnes i gofleidio cynhwysiant, cynaliadwyedd a chyd-ffyniant.

*Siaradwyr:*

**Ben Tolhurst**
Cyfarwyddwr, *Business Declares* a *Business Leaders for Peace*

**Jasper Kenter**
Athro, Ysgol Fusnes Aberystwyth

*Cadeirydd:*

**Ben Lake AS**
Aelod Seneddol, Ceredigion Preseli

Darperir lluniaeth.
Cysylltwch â ksd2@aber.ac.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Gwybodaeth am y siaradwyr



Ben Tolhurst yw Cyfarwyddwr *Business Declares*, sef rhwydwaith aelodaeth o 140 o fusnesau nid-er-elw sydd â'r genhadaeth o helpu busnesau i gyflymu eu cynlluniau i fynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd, byd natur a chyfiawnder cymdeithasol (yr "aml-argyfwng"). Ceir rhagor o fanylion ym maniffesto *Business Declares* yma. Cyn ymuno â *Business Declares*, treuliodd Ben 25 o flynyddoedd mewn sawl rôl yn y sector corfforaethol, yr un ddiweddaraf ohonynt oedd fel rheolwr-gyfarwyddwr ar is-adran rheoli eiddo ac asedau'r DU i gwmni JLL, sef y corff eiddo tir corfforaethol mwyaf yn y byd.



Mae Jasper Kenter yn Gymrawd Ymchwil Athrawol mewn Economeg Ecolegol Gydgynghorol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Mae'n arwain *Global Assessment for a New Economics* (GANE), sef partneriaeth fyd-eang rhwng ymchwilwyr, llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddwyn ynghyd wahanol ddulliau ar gyfer trawsnewid economïau tuag at gynaliadwyedd a chyfiawnder. Mae ei ymchwil yn rhychwantu economeg, ecoleg, gwyddoniaeth wleidyddol, seicoleg ac athroniaeth. Mae'r Athro Kenter hefyd yn weinidog rhyng-ffydd gydag *One Spirit*.



Ben Lake yw'r Aelod Seneddol dros Geredigion Preseli. Cafodd ei ethol yn AS yn gyntaf yn 2017. Ef yw llefarydd Plaid Cymru dros y Trysorlys, Materion Tramor, a Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Yn 2019, enwebwyd Lake ar gyfer Gwobr AS y Flwyddyn, sy'n gwobrwyo Aelodau o Senedd San Steffan sy'n mynd ati'n weithredol i weithio gyda chymunedau a dangynrychiolir a rhai difreintiedig ledled Prydain. Cafodd ei eni yng Nghaerfyrddin a'i fagu yn Llanbedr Pont Steffan.